Applying for a job at Celf o Gwmpas – Application Notes

Diolch am eich diddordeb mewn gweithio gyda ni yn Celf o Gwmpas

Bydd y nodiadau yma yn eich helpu chi i lenwi'r ffurflen gais.

Nid ydym yn defnyddio Cofnodion Cyrhaeddiad. A wnewch chi lenwi'r ffurflen os gwelwch yn dda. Rydym am glywed gennych am sut yr ydych yn meddwl y bydd eich profiad yn eich gwneud yn ymgeisydd da ar gyfer y rôl.

Mae Cofnod Cyrhaeddiad yn ein gadael yn gwneud rhagdybiaethau - efallai eich bod wedi cael pum mlynedd mewn rôl sy'n swnio'n debyg, ond nid yw hynny'n dweud wrthym beth ddysgoch chi o'r rôl honno na sut y byddwch chi'n defnyddio'ch profiad i wir ddisgleirio yn ein rôl ni.

Os y nodwch ar y ffurflen gais 'wele'r cofnod cyrhaeddiad' byddwn yn cymryd hwnnw fel nad ydych wedi ateb y pwynt ac fe fyddwch yn anhebygol o gael eich dewis ar gyfer y rhestr fer.

Yn yr un modd, os ydym eisoes yn eich adnabod, peidiwch â gwneud rhagdybiaethau y byddwn yn gwneud y gwaith i chi ac yn dweud ein bod yn gwybod y gallwch wneud y gwaith. Rydyn ni'n dîm bach ac mae'n rhaid i bawb allu hunanreoli i ryw raddau - mae angen i chi ddangos hynny i ni trwy fod yn glir ynglŷn â sut rydych chi'n meddwl bod eich profiad yn eich gwneud chi'n addas ar gyfer y swydd.

Mae llenwi'r ffurflen hefyd yn rhoi'r un cyfle i bob ymgeisydd ymateb i'r fanyleb person a'r disgrifiad swydd.

Yn dilyn y disgrifiad swydd a'r fanyleb person yn eich ateb
Darllenwch y disgrifiad swydd a'r fanyleb person yn ofalus. Pan fyddwch yn llenwi'r cais ac yn rhoi sylw i'r pethau yr ydym wedi'u rhestru fel rhai hanfodol a dymunol, dywedwch wrthym sut mae'ch profiad yn eich cynorthwyo i gyflawni'r meini prawf hyn. Y ffordd orau yw pwynt wrth bwynt.

Peidiwch â gadael i ni dybio unrhyw beth; mae angen i chi ddangos i ni sut mae'ch profiad yn gweddu i'n hanghenion.

Llenwch y ffurflen yn electronig. Nid ydym yn derbyn ffurflenni sydd wedi eu hysgrifennu â llaw.

Gallwch ddod o hyd i dipyn o wybodaeth amdanom ar ein gwefan a'n tudalen facebook.
Nid ydym yn rhoi cyfweliadau anffurfiol, nac yn annog 'sgyrsiau' byrfyfyr am y swydd gydag ymgeiswyr ond os ydych am wirio rhywbeth, rydym yn hapus i drafod dros y teleffon neu ateb e-byst.

A wnewch chi ddychwelyd y ffurflen gais erbyn y dyddiad cau.

Ffurflen Fonitro.
Cedwir y ffurflen hon ar wahân i'r ffurflen gais ac nid yw'r panel cyfweld na'r rheiny sy'n dewis y rhestr fer yn ei gweld. Nid yw'n ffurfio unrhyw ran o'r broses ddethol. Dros amser,

mae'r wybodaeth o'r ffurflenni hyn yn ein helpu i fonitro a ydym yn apelio at rannau penodol o'r gymuned ac nid yn apelio at eraill neu'n ymddangos yn berthnasol i eraill.
Mae'r cwestiynau'n seiliedig ar y 'nodwedd warchodedig' a ddiffiniwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Nid oes yn rhaid i chi ateb unrhyw un neu bob un o'r cwestiynau ar y ffurflen fonitro ond mae'n ein helpu os gwnewch hynny i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein hymrwymiadau cydraddoldeb.

Centre CELF
Fford Tremont
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5EB

Ffon/Tel: 01597 822777
e-bost/e-mail: centrecelf@celfogwmpas.org

Patron: Caroline Tate, Artist
Rhif Elusen Gofrestredig/Registered Charity Number: 1073029

Centre CELF
Tremont Road
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5EB